



Cymdeithas Edward Llwyd  
Rhif Elusen Gofrestredig : 1126027

# Bwletin Llên Natur 13

Rhifyn Chwefror i Naturiaethwyr ac i Bobl Cymru  
www.llennatur.com

## Tráigh an Choma



Llun: Ifor Williams


Ar y traeth hwn, ffilmwyd ran o 'r ffilm *Ryan's Daughter*, y rhan pan aeth y bobl i nôl yr arfau o'r traeth yn ystod y storm fawr.

Mewn storm go iawn, heb fod ymhell o'r fan hyn, dryllwyd llong *barque* y St. Lawrence ar lannau bae Tralee, Iwerddon, ar 4 Chwefror 1840. Cyfnod o dywydd tymhestlog ydoedd gyda'r môr yn arw ar hyd glannau'r deheuon. Ar y 7 Chwefror, tri diwrnod wedyn, glaniodd y Tywysog Albert yn Dover ar ôl taith bum awr o Calais er mwyn priodi'r Frenhines Victoria.

"Trá an Choma meaning the bay of the hollow (figurative or metaphorical usage from com, a waist". [www.logainm.ie](http://www.logainm.ie)

### Y Gwynt sy'n Bwyta Eira

Bydda'i yn falch pob tro y bydd rhyw academydd neu gilydd, o bell, yn tynnu sylw at un o nodweddion dyffryn Abergwyngregyn, y pentref bach digyffro hwnnw rhwng Bangor a Llanfairfechan. Penderfynodd mudiad *Plant Life* gwpl o flynyddoedd yn ôl mai dyffryn Aber oedd yn




haeddu'r seithfed lle yn y Deyrnas am ei garpedi anhygoel o fwtsias y gog. Ewch yno ganol mis Mai ac mi gewch farnu'r "llesmeiriol baent" drosoch eich hunain. Teimlais falchder eto ('dwn i'm pam yn yr achos hwn!) pan ddarllenais mewn cyfrol a gyhoeddwyd y llynedd mai dim ond ar wyth o ddyddiau ym mis Ionawr, yn rhywle ym Mhrydain, y cyrrhaeddodd

uchafbwynt y tymheredd yn 17°C neu fwy. Roedd saith o'r dyddiau hynny yn Abergwyngregyn. Oes yna ryw beth am y ffigur 7 dywedwch?

Mae yna reswm da pam fod Abergwyngregyn yn cael

mwy na'i siâr o wres yn y gaeaf. Gan bobl y *Chinook* y mae'r ateb. Llwyth o Americanaid cynhenid sy'n byw ar arfordir y Môr Tawel yw'r rhain. Mae'r gair yn golygu "bwyta'r eira" ac yn cyfeirio at y gwynt cynnes sy'n chwythu dros eu t i r o e d d traddodiadol o g y f e i r i a d mynyddoedd y

*Rockies* i'r dwyrain. Mae'r gwynt yn cynhesu fwy wrth ddod i lawr nag y bu iddo oeri wrth fynd i fyny, ac wrth wneud hynny, toddi'r eira (gweler y diagram i weld sut mae'r *chinook* yn cynhesu pobl Aber am ddim). Gyda llaw, mae'r *chinook* yn ychwanegiad i gasgliad Ifor Williams (Rhifyn 3: Ceir y Gwynt Teg). Enw arall, o'r Almaeneg, ar y gwynt *Chinook* yw Föhn.



Addasiad o erthygl a ymddangosodd yn Y Cymro

### Un diwrnod - dau gofnod (26 Ionawr 1884)

**Ochertyre, Crieff:** *An exceptionally stormy week ends today with the lowest unchallenged pressure reading ever recorded in the British Isles - 925.6 mbar. A violent gale ensues, blowing down a million trees on one Scottish estate alone.*

Woodward A. & Penn R., *The Wrong Kind of Snow* (Hodder & Stoughton)

**Aberdaron, Llŷn:** Bwrw eira neithiwr. Gwlaw heddyw a gwynt mawr. Boddodd gwraig Hary Hughes Brynkir...cael corph dynes yn Glan Morfa Bychan.

Dyddiadur W Jones, Moelfre, trwy garedigrwydd Mrs WE Miners a Miss DL Roberts




[www.llansadwrn-wx.co.uk/daily/diary.html](http://www.llansadwrn-wx.co.uk/daily/diary.html)

This large ash tree was blown over blocking the road to Penhesgyn, near Llansadwrn, during the recent gales [Rhagfyr 2006]. The tree was a mere sapling at the time of the Irish potato famine in the year 1845. It was 75-years old when rainfall records started to be kept at nearby Treffos in Llansadwrn. The driest year was in 1945 when it was 61-years and was still going strongly in dry 1976. It passed Millennium year 2000, which was the wettest on record, but was blown over at the age of at least 165-years on the night of 4 December 2006.



Newid hinsawdd a newid cynefin - diolch i'r "naturiaethwr" Lloyd George!



10 Rhagfyr 1885 clear and frosty again - skating going on at Ystumllyn Dyddiadur Lloyd George (Amgueddfa LG, Llanystumdwy, gyda diolch).

Dim sglefrio yma erbyn hyn - dim llyn, dim rhew!

Disgrifiwyd Llyn Ystumllyn yn 1946 fel 'a freshwater marsh grading in places to a shallow lake...the dominant plants are *Scirpus lacustris* [llafrwyn] and *Phragmites communis* [cyrs] with a good deal of *Salix cinerea* [helyg] along the eastern side. In September 1938 the *Salix* was often under 2ft of water...The bog bean [ffa'r gors] dominates several isolated areas..The gulf of Llyn Ystumllyn formerly ran up to the main road near Pentre'r-felin and at that time only a narrow isthmus joined the Moel y Gest peninsula to the mainland...The lake is in the Ffestiniog beds which are not particularly resistant".

Steers JA (1946) *The Coastline of England and Wales*

A dyma gofnod o'r adar yno flwyddyn ynghynt: "I had a drake Garganey (*Anas querquedula*) under observation on several occasions in March, 1945, on Llyn Ystumllyn, near Criccieth, North Wales. I first saw it on March 16th and was able to get a good view through glasses. I rather suspect that two drakes were present, but cannot be certain. Five Whooper Swans (*Cygnus cygnus*) were also present on Llyn Ystumllyn". R. L. Vernon British Birds Hydref 1945

Sglefrio 2009 - Siân Alaw Williams



Llyn Pen y Gwryd wedi rhewi, dydd Dydd Calan 2009. Tynnwyd y llun tua 4:30 yn y prynhawn. Tymheredd yn darllen -6 ar thermometr y car. [Cofnododd Lloyd George ei sglefrio ar lefel y môr. Roedd sglefrio Siân 277 medr uwchlaw'r môr. Gyda llaw, enw arall a arferir am Llyn Pen y Gwryd yw Llyn Lockwood, ar ôl Arthur Lockwood, cofnodwr tywydd a pherchen Gwesty Penygwryd. Gol.]



Creŷr glas ar ben to



Rhywun yn gweiddi "yli storc ar ben y ty na!" Amser cinio dydd Sul 4 Ionawr 2009 oedd hyn.

Ifor Williams

Tybed oes a wnelo'r ymddygiad â'r cyfnod eithriadol o oer a gawsom pan dynnwyd y llun? [Gol.]

Mwy am sglefrio (gyferbyn)...

Siarad efo un o'n cydweithwyr yma, o'r Iseldiroedd. Mae ffermwyr yno yn gadael i ddŵr lifo i'r caeau pan mae'n rhewi, er mwyn i bobol gael sglefrio arnynt adeg yma o'r flwyddyn, o ia, a chodi pris i sglefrio yn y caeau hefyd! Ifor Williams

Adar Cynffon Sidan eto..

Rwy'n cofio bod nifer ohonyn nhw yn Llandudno rai blynyddoedd yn ôl yn bwyta'r aeron ar y llwyni o amgylch yr hen Asda. Y tro cyntaf i mi weld rhai oedd tua 20 mlynedd yn ôl pan oeddwn yn dysgu yn Llundain - am dros wythnos roeddent i'w gweld bob dydd yn gweithio'u ffordd yn systematig drwy'r aeron yn y gwrych y tu allan i ffenestri fy stafell ddosbarth - bendigedig! Sian Beidas

Mae'n debyg bod yna 13 cynffon sidan yn ymgynnull yn rheolaidd wrth garafan gwarchod gweilch Glaslyn yn eu blwyddyn gyntaf o nythu yno (ddiwedd Mawrth 2002). Roedden nhw yno am tua 3 wythnos, dwi'n meddwl - yn bwyta grawnwin a ffrwythau eraill oedd yn cael eu gosod ar goeden reit wrth ymyl y garafan. Ieuan Bryn

L l ê n y C r e i g i a u



## Aderyn y to - fe ddaeth, ac fe aeth

"Wrth nôl y goeden Nadolig (6 Rhagfyr 2008) gwelais yr aderyn bach yma yn hedfan o gwmpas y to", meddai Gwyn Williams."



Yn yr ysgrif gyntaf erioed am Loegr yr Eingl Sacson disgrifiodd Beda (*The Venerable Bede*), mynach o Jarrow, Swydd Durham yn y flwyddyn 731 am araeth prif offeiriad Llys y Brenin Edwin.\* Cymharodd fywyd dyn gyda'r aderyn to sydd yn dod i fewn i'r neuadd

fawr o'r storm, ac yn mynd ymaith eto:

"*Your Majesty*" meddai, "*when we compare the present life of man on earth with that time of which we have no knowledge, it seems to me like the swift flight of a single sparrow through the banqueting hall where you are sitting at dinner on a winter's day with your thegns and counsellors. In the midst there is a comforting fire to warm the hall. Outside, the storms of winter rain or snow are raging. This sparrow flies swiftly in through one door of the hall and out through another. While he is inside, he is safe from the winter storms, but after a few moments of comfort, he vanishes from site into the wintry world from which he came. Even so, man appears on earth for a little while, but of what went before this life or of what follows, we know nothing.*"

Sherley-Price, L. (1990) Bede: Ecclesiastical History of the English People

\*Pwy oedd y Brenin Edwin? Darllenwch fwy am ei gysylltiad a Chadwallon a Chadfan yn

[www.earlybritishkingdoms.com/adversaries/bios/edwin.html](http://www.earlybritishkingdoms.com/adversaries/bios/edwin.html)

## Asgell fraith o'r Is-almaen



Cafodd Gwyneth Parry ei chyffroi pan welodd fodrwy ar goes yr aderyn bach hwn a laddwyd ym Mhenygroes Arfon ar 27 Ragfyr 2008. Ar y fodrwy roedd yr ysgrifen **Arnhem vt Holland V296143**. Dyma'r ateb gafwyd o'r BTO: "*Many thanks for the details of the ringed Chaffinch. I have forwarded this on to Holland. You should thus,*

*hopefully, hear from them in due course. Sounds like an interesting movement - Chaffinches usually don't move too far.*"

## Mwy am y morthwl sinc (Rhifyn 11)

Pan fyddwn i'n hogyn, mi fyddwn i'n mynd am wyliau haf at fy Nain i Glwt-y-Bont ger Deiniolen - yr un ardal, fwy neu lai, â milltir sgwâr Bert Parry. Roedd yna chwarelwr yn byw drws nesa i fy Nain, ac un o'r pethau y byddai fo'n ei wneud i'n difyrru oedd gwneud **morthwyl sinc** i ni. Does gen i ddim cof ei fod o'n rhoi cerrig mân na dim byd arall yn y morthwyl. Felly, diddorol iawn oedd cael gwybod am yr arferiad cyflawn gan Bert. Ia, math o ratl oedd o, sef 'rygaryg'. Yr enw hwnnw'n siŵr o fod yn disgrifio'r sŵn y byddai'r morthwyl sinc yn ei wneud pan oedd yna gerrig mân ynddo fo (cofio drama Wil Sam, 'Pysri Rygarug'?)

Hyn yn f'atgoffa am y pethau difyr eraill y bydden ni'n eu gwneud yn ystod ein gwyliau haf yng Nghlwt-y-Bont. Helpu(?) cymydog fy Nain i **hel gwair**. Roedd ganddo fo un fuwch. Defnyddio pladur y byddai o i dorri ei ychydig wair, a dwi'n ei weld o rŵan yn rhoi'r llafn hir dros ei ysgwydd i roi min arno fo efo'i galan hogi, ac yn poeri ar gleidr ei ddwy law cyn ailafael yn y pladuro! Mi fyddai'n cario'r gwair yn fwndeli mawr ar ei gefn i'r dafnod uwchben y beudy, ac roedd ganddo fo hen gynfas wely i mi, fel y gallwn innau hefyd roi f'ysgwydd dan y beichiau llai! Mi gawn fynd efo fo i gynaeafu **rhedyn** hefyd, er mwyn rhoi hwnnw dan y fuwch yn y gaeaf. Mi fyddwn i hefyd yn cael rhoi cynnig ar **odro'r fuwch**, drwy eistedd ar ei lin ar stôl drithroed. Doedd hi ddim yn amhosibl gwasgu llaeth o un deth, ond yn ormod o gamp o lawer i mi dynnu llaeth cyson o'r bedair! Roedd Yncl Jac yn giamstar arni. (Mae Robin Williams yn sôn am odro fel hyn yn rhywle, ac yn disgrifio'r sŵn neilltuol y byddai'r llaeth yn ei wneud wrth daro gwaelod y fwcad odro.)

Mi fydda Yncl Jac yn mynd â ni i **hel llus** hefyd - yng nghreigiau Brynrefail. Sôn am biwiaid yn pigo... ond tarten lus fy Nain yn werth pob pigiad! Fo hefyd ddangosodd **Frenhines yr Wyddfa** i mi am y tro cyntaf - rhywle yng nghyffiniau Cwm Hetiau, os cofia'i. Doedd hyd yn oed 'hafau Meifod' yn ddim patsh i'r hafau hynny. **Ieuan Bryn A** meddai Emyr (Tomi) Tomos (nid Emyr Thomas fel y'i



henwyd yn y rhifyn diwethaf - ymddiheuriadau Tomi) "Cafodd **Cwm Hetiau** ei alw oherwydd mai uwchben y cwm hwnnw y cawsai hetiau'r fisitors Fictoriaidd eu codi'n ddisymwth gan y gwynt a'u chwythu yno tra'n cerdded i'r copa".

**Joc dîn!** Dwy fran yn mynd am dro. Dyma jet yn pasio, "ew" medda un, "dydi hwnna'n gyrru?" Fela fasa titha hefyd tasa dy dîn di ar dân!

*L l ê n y L l e f y d d*



## Colofn Huw a Twm




Stryd cwmwl (cloud street) yw'r enw am linell o g y m y l a u *Cumulus* sy'n rhedeg i'r un cyfeiriad â'r gwynt. Fel arfer mae'r awyr o boptu yn glir. Yn aml

bydd mwy nac un "stryd" pob un yn rhedeg yn gyfochrog. Yn y llun a dynnwyd yn ardal Mynydd Cilan mae'r gwynt de-dde-orllewinol yn cael ei hel i fyny dros Cilan gan anweddu i ffurfio cwmwl sy'n cael ei wthio i'r tir ac un arall, ac un arall eto, yn cymryd lle'r un blaenorol o dan yr un broses nes creu rhes - neu "stryd". Y naill ochr i Cilan nid oes cymylau gan fod y gwynt yn aros ar lefel y môr. Mae strydoedd aml-resog yn ffurfio lle mae mwy nag un bwgan o flaen y gwynt, neu mwy nag un man cynnes (HHJ).

Enw cyffredin ar gymylau *Cumulus* bychain gwynion pan maent yn wasgaredig drwy'r awyr yw 'cymylau defaid'. Pan maent yn ffurfio rhesi cyfochrog, sy'n cyfateb i'r 'cloud street' Saesneg, ac yn gorwedd i'r un cyfeiriad a'r gwynt, dywedir bod 'y defaid yn dilyn eu llwybrau'. Mae hynny'n ein hatgoffa o'r rhesi o ddefaid welwn ni yn symud, drwyn wrth gynffon, o un rhan o'r mynydd i'r llall, yn enwedig pan mae ar fin newid tywydd. (TE)

## Llyisiau'r Cryman....



awrlais y dyn tlawd  
brathlys  
coch y tywydd  
diwythl Fedi  
gwlydd Mair  
oriawr y bugail

Pa air ydych chi yn ei ddefnyddio - ac ym mha ardal?

## ...adnabod y cen

Tynnodd **Aled Jones** (Penrhyndeudraeth) y llun isod yn Ceunant, Llanrug ym mis Rhagfyr eleni. Meddai'r cenbenigwr **Ray Woods** o *Plantlife UK* (sydd yn byw yn y Bontnewydd ar Wŷy): *It's a Cladonia! Probably in the C. chlorophaea aggregate. Sadly the photos don't show a side view of the cups or a close up of the base, necessary for a more accurate determination.*



## Hau halen

William Jones, Moelfre, Aberdaron, yn ei ddyddiadur, yn dweud ar 28 Mai 1884 "Hau halen yn Cae'r Afon". Pam gwneud hynny tybed? Syniad rhywun?

" 'Lasa fo fod yn rhoi gwrtaith ar y tir oedd yn edrych neu'n teimlo fath a halen e.e. *sulphate of potash*, ond dwi ddim yn meddwl fod hwn yn bodoli pryd hynny. Cofio Cofis ar fferm yn Y Groeslon flynyddoedd yn ôl yn galw *basic slag* yn hadau du!" meddai IW. Unrhyw gynnig arall? (Gol.)

## Y Gwyfyn a'r Fflam

Mae Thomas Hardy yn un o'i nofelau yn cyfeirio at hen arferiad yn ei ardal o ollwng gwyfyn drwy grac er mwyn i'r



Gwyfyn yr Adain Losg, y Wern Goch, Abergwyngregyn

creadur ei losgi ei hun yn fflam y gannwyll fel arwydd i'r ferch yn y ty fod ei chariad yn aros y tu allan. Mae ganddo gerdd hefyd, o'r enw *The Moth-Signal*:

'O, I see a poor moth burning  
In the candle-flame,' said she,  
'Its wings and legs are turning  
To a cinder rapidly.'.....  
'I saw the pale-winged token  
You sent through the crack,' sighed she.  
'That moth is burnt and broken  
With which you lured out me.

<http://www.btinternet.com/~wesspix/poetinx.htm>

Mae'r palindrom Lladin canlynol yn cyfeirio at yr un arferiad gan wyfyn: *'In girum imus noctes et consumimur igni'*. ["O gwmpas y fflam yr a'r gwyfyn ac fe'i llosgir ganddi"]

**Aled Jones, Rhuddlan**

[Mae'n gwestiwn a ydi'r gwyfyn yn wir yn llosgi wrth ymarfer ei gampau mentrus. Profiad rhywun? Gol.]

## Llên y Llyisiau.....yn diflannu?

Na, mae'n esblygu.

Mae gwefan Llên y Llyisiau wedi ei hymgorffori i [www.llennatur.com](http://www.llennatur.com).

Cewch yr un gwasanaeth a llawer, llawer mwy ar ein gwefan newydd.